PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 15 MAI 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Lay, Reid-Jones a/ac Taylor |

43 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi’u derbyn.

44 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

45 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023 yn gofnod cywir.

46 : DIWEDDARIAD AR BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU AC AR FUDDSODDIADAU

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Awgrymodd y Cadeirydd y bydd rhaid i bob un o Awdurdodau Cyfansoddol PPC gymeradwyo'r meini prawf gwerthuso ar gyfer Caffael Gweithredwr a argymhellwyd gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC yn unigol. Cynhelir y cyfarfod hwn trwy Teams, a bydd dyddiadau'n cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor.

Roedd y Cadeirydd yn falch o gynnwys yr adroddiad a'r ffordd y mae'r PPC yn buddsoddi.

Cynhaliwyd trafodaeth am hyfforddiant ac anogwyd aelodau i fynychu sesiynau hyfforddi digidol PPC sydd ar gael i bawb ac sy'n ddiddorol ac yn werth chweil.

PENDERFYNWYD:

i. Nodi'r datblygiadau diweddar yn y broses o sefydlu cronfa fuddsoddi PPC.

ii. Cymeradwyo Cynllun Busnes PPC ar gyfer 2023-2026.

47 : COFRESTR RISGIAU

Rhoddodd swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad, tynnwyd sylw at y newidiadau a amlinellwyd ym mharagraff 3 o’r adroddiad eglurhaol, a rhoddwyd

gwybod i'r Aelodau nad oedd y Bwrdd Pensiynau Lleol wedi awgrymu unrhyw newidiadau pellach.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr aelodau fod trafodaeth yn parhau gyda'r ddau gyflogwr nad ydynt ar iConnect.

Trafododd yr aelodau swyddi gwag staff a gofyn am ddiweddariad. Dywedodd swyddogion fod swyddi gwag wedi bod ar gyfer ychydig o raddau gwahanol, roedd rhai wedi'u penodi, nid oedd un wedi gweithio. Roedd yr hysbysebion swyddi wedi'u hailgynllunio i ddenu croestoriad ehangach o ymgeiswyr ar gyfer y swydd gradd 5. Roedd 4 o bobl wedi cyrraedd y rhestr fer a threfniadau cyfweld wedi'u gwneud ond doedd dim yr un person wedi dod. Roedd swyddogion o'r farn bod hyn yn symptomatig o broblemau recriwtio sy'n cael eu hwynebu ar draws y sector, ar draws Awdurdodau Lleol a'r economi. Dywedodd swyddogion y gallai fod angen iddynt ystyried rhoi rhywfaint o waith ar gontract allanol os ydynt yn parhau i fod yn aflwyddiannus wrth recriwtio i'r swyddi, ond byddai hyn yn dod ar gost sylweddol.

Gofynnodd yr Aelodau a fu unrhyw drafodaeth ynghylch y posibilrwydd o rannu/uno adnoddau gydag Awdurdod Lleol arall. Dywedodd swyddogion fod hyn wedi cael ei ystyried yn flaenorol a'i drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiynau ar y Cyd gan fod yr un materion yn cael eu hwynebu ar draws yr awdurdodau, gellir archwilio hyn ymhellach.

Esboniodd swyddogion ymhellach nad yw graddau hanesyddol yn y Cyngor yn gystadleuol iawn a bu chwyddiant cyflog hefyd ar gyfer rhai graddau yn awdurdodau Lloegr.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys y Gofrestr Risgiau.

## 48 : CYNLLUN BUSNES 2023/24

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo’r Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24.

## 49 : COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Nodwyd.

## 50 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD bod Eitem 9 yn gyfrinachol ac na chaiff ei chyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o’r cyfarfod i gyflwyno’r eitem hon yn unol â’r un ddeddfwriaeth.

## 51 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd.

## 52 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

## 53 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau yw'r cyfarfod ar y cyd â'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar 3 Gorffennaf 2023 am 4pm.
Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar 27 Tachwedd 2023 am 5pm

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm